

Strategaeth Rhianta Corfforaethol Amlasiantaeth Blaenau Gwent (2025-2030)



Addewid o Flaenau Gwent



Cynnwys

Rhagymadrodd

1) Rhagair gan Arweinydd Cyngor
Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

1 Cefndir

- Beth yw Rhianta Corfforaethol?
- Pwy yw Bwrdd Rhianta Corfforaethol Blaenau Gwent?
- Diben Strategaeth Rhianta Corfforaethol Blaenau Gwent

2. Ein gweledigaeth

- Ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal
- Gwerthoedd ac Egwyddorion Craidd

3. Yr addewidion a'r egwyddorion

- Egwyddor 1 – Cydraddoldeb
- Egwyddor 2 – Dileustigma
- Egwyddor 3 – Gyda'n Gilydd
- Egwyddor 4 – Cymorth
- Egwyddor 5 – Uchelgais
- Egwyddor 6 – Anogaeth
- Egwyddor 7 – Iechyd Da
- Egwyddor 8 – Cartref Sefydlog
- Egwyddor 9 – Addysg dda
- Egwyddor 10 – Ffynnu
- Egwyddor 11 – Gydol Oes

4. Mesurau llwyddiant

5. Casgliad

6. Y cynllun gweithredu pum mlynedd



Y Cyngorydd Steve Thomas,
Arweinydd y Cyngor a'r Aelod
Cabinet dros Adnoddau
Corfforaethol.



Stephen Vickers, Prif Weithredwr
Cyngorau Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent a Thorfaen.

Rhagymadrodd

Rhagair

gan y Cyngorydd Steve Thomas a'r Prif Swyddog Gweithredol Stephen Vickers.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn ein gofal yn derbyn cefnogaeth a chyfleoedd i ffynnu o'r safon uchaf. Fel rhieni corfforaethol, mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i hyrwyddo anghenion a dyheadau ein plant a'n pobl ifanc, gan roi'r gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial llawn.

Ein gweledigaeth ar gyfer rhianta corfforaethol ym Mlaenau Gwent yw creu amgylchedd diogel, cryf, meithringar a chefnogol lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo eu bod yn gallu cyflawni eu dyheadau drwy gydol eu plentynod a phontio'n esmwyth i fod yn oedolyn.

Drwy sicrhau bod einhadrannau'n gweithio gyda'i gilydd a chyda gwasanaethau cyhoeddus eraill, y sector gwirfoddol a'r gymuned ehangach ym Mlaenau Gwent i annog eu rôl fel rhieni corfforaethol, gallwn ddarparu'r cyfleoedd a chefnogaeth ddi-dor sydd eu hangen ar ein plant i ffynnu.

Ym mis Awst 2024, llofnododd y Cyngorydd Haydn Trollope Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru, 'Addewid Cymru', yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Glynebwy, ochr yn ochr â'n prif weithredwr, Stephen Vickers, ac uwch-swyddogion yr awdurdod. Trwy wneud hynny, datganodd yn gyhoeddus ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i'r naw addewid a'r 11 egwyddor ynddi. Mae'r strategaeth uchelgeisiol, tymor hwy hon a'r cynllun gweithredu pum mlynedd sy'n rhan ohoni yn amlinellu addewid Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i fod yn rhiant corfforaethol effeithiol, a'n hymrwymiad i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel, yn hapus ac yn iach, ac yn cyflawni eu potensial llawn. Yn y cynllun hwn, rydym yn amlinellu ein huchelgais i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc mewn gofal ym mhob cam o'ubywyd, o'r blynyddoedd cynnar hyd nes nad oes angen cefnogaeth mwyach arnynt.

Rydym yn sylweddoli bod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn unigolion ac, fel rhieni corfforaethol, byddwn yn cofio hyn a bob amser yn ymdrechu i feithrin eu hunigrywiaeth trwy ddarparu'r holl gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Fel gyda phob strategaeth, rhaid i gynllun gweithredu gyd-fynd â hi i amlinellu'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod ein huchelgais yn cael ei gwireddu ac i'n cadw ar y trywydd iawn i gyflawni ein gweledigaeth.

Rwy'n gyffrous iawn am ddyfodol ein plant a'n pobl ifanc ym Mlaenau Gwent ac rwy'n annog ein holl asiantaethau partner a sefydliadau lleol i lofnodi'r siarter ac ymrwymo i helpu i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc os nad ydych chi eisoes wedi gwneud hynny, oherwydd mae'n cymryd pentref cyfan i fagu plentyn.

- Y Cyngorydd Steve Thomas.



1.Cefndir

Beth yw rhianta corfforaethol?

Rhianta corfforaethol yw'r term a ddefnyddir yn y gyfraith i ddisgrifio'r cyfrifoldeb sydd gan awdurdodau lleol, aelodau etholedig, gweithwyr ac asiantaethau partner i blentyn neu berson ifanc mewn gofal os na allant fyw gyda'u rhieni neu eu gwarcheidwaid. Ein dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Plant 1989 yw gweithredu fel rhieni corfforaethol pan fydd plant yn dod o dan ofal yr awdurdod.

Cyfrifoldeb ar y cyd partneriaid pan fydd plentyn yn mynd i ofalyw rhianta corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol a'u gweithwyr, aelodau etholedig ac asiantaethau partner. Mae gan bob aelod a gweithiwr y cyngor gyfrifoldeb statudol i weithredu er budd y plentyn.

Mae bod yn rhiant corfforaethol yn ymwneud â dymuno'r gorau i'r plentyn neu'r person ifanc hwnnw ac ymdrechu i'w gyflawni drostynt.


Pwy yw Bwrdd Rhianta Corfforaethol Blaenau Gwent?

Mae Bwrdd Rhianta Corfforaethol Blaenau Gwent yn cynnwys aelodau etholedig, swyddogion yr awdurdod, staff ein sefydliadau partner, gofalwyr maeth a phobl ifanc sy'n gadael gofal.

Mae'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn grŵp o bobl sy'n sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc sydd mewn gofal yn cael eu trin cystal â phosibl. Mae Bwrdd Rhianta Corfforaethol Blaenau Gwent yn gyfrifol am oruchwylio'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu a hyrwyddo llais ein plant a'n pobl ifanc a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl iddynt.

Bydd y bwrdd yn parhau i weithio drwy gydol oes y strategaeth hon i godi ymwybyddiaeth o rianta corfforaethol ym Mlaenau Gwent fel bod gan ein plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal yr un cyfleoedd bywyd â'r plant hynny nad ydynt â phrofiad o fod mewn gofal.

RYDYM NI EISIAU I'N **HOLL** BLANT



Diben Strategaeth Rhianta Corfforaethol Blaenau Gwent

Diben y strategaeth hon yw nodi ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau strategol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ym Mlaenau Gwent. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer gweithredu ac yn amlinellu sut y byddwn yn cydweithio i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'n plant a'n pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ym Mlaenau Gwent.

Mae'n hanfodol bod yr holl bobl a sefydliadau perthnasol yn cydweithio tuag at nodau ac uchelgeisiau cyffredin ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc. Ni all unrhyw unigolyn, tîm, gwasanaeth na sefydliad wneud hyn ar ei ben ei hun, a dyna pam mae cydweithio, ar lefel strategol a gweithredol, yn hanfodol. Y strategaeth hon yw'r gyntaf o'i math i Flaenau Gwent ac mae'n uchelgeisiol iawn, gyda nodau tymor byr a hirdymor. Bydd yn cymryd amser, egni, angerdd ac ymrwymiad i gyflawni ei holl addewidion, ond gyda'n gilydd gallwn gyflawni mwy. Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn dal pawb yn gyfrifol, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau, partneriaid ac aelodau etholedig.


Am y rheswm hwnnw, credwn ei bod yn bwysig bod ein strategaeth yn ddogfen fyw sy'n cael ei monitro'n barhaus ac yn esblygu. Byddwn yn chwilio am weithgarwch newydd ac yn nodi camau gweithredu newydd wrth i ni symud ymlaen, a bydd ein hymgyngoriad â'n plant a'n pobl ifanc yn parhau bob blwyddyn.

Mae ein plant a'n pobl ifanc ym Mlaenau Gwent ar flaen y gad o ran datblygu'r strategaeth hon. Fe wnaethant ein helpu i'w dylunio, gan osod y camau gweithredu a dweud wrthym eu blaenoriaethau, sydd wedi'u hymgorffori yn y cynllun gweithredu. Drwy gydweithio, gallwn wneud eu byd yn lle gwell.



Strategaeth Rhianta Corfforaethol Amlasiantaeth Blaenau Gwent (2025-2030)

Yn 2024, daeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn “gyngor Marmot” ac ymrwymodd i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol drwy weithredu cydlynol sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar benderfyniadau cymdeithasol iechyd, megis tai, addysg, yr amgylchedd a gwahaniaethu, sy’n llunio iechyd a lles hirdymor. Mae’r dull hwn wedi’i seilio ar wyth egwyddor Marmot a hyrwyddir gan yr Athro Syr Michael Marmot a’r Sefydliad Tegwch Iechyd. I blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, mae hyn yn golygu y bydd eu lles, eu cyfleoedd a’u rhagolygon ar gyfer y dyfodol wedi’u seilio ar egwyddorion Marmot, sy’n pwysleisio tegwch, atal a grymuso a sicrhau nad yw “profiad o fod mewn gofal” yn pennu cyfleoedd bywyd



2. Ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Ein gweledigaeth ar gyfer rhianta corfforaethol ym Mlaenau Gwent yw creu amgylchedd diogel, cryf, meithringar a chefnogol lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn ddiogel, yn iach ac yn hapus ac yn cyflawni eu potensial llawn.

Rydym am i'n plant a'n pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewngofal gael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion a chael eu cefnogi i fyw bywydau boddhaus ac annibynnol a phontio'n esmwyth i fod yn oedolion.

Mae siarter Llywodraeth Cymru yn nodi 11 egwyddor a naw addewid i gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewngofal. Mae'r egwyddorion ac addewidion hyn bellach wedi'u mabwysiadu gan ein hawdurdod.

YR EGWYDDORION

CYDRADDOLDEB

DILEU STIGMA

CYDWEITHIO

CYMORTH CYNHWYSOL

CYFLAWNI UCHELGEISIAU

ANOGAETH

IECHYD DA

CARTREF SEFYDLOG

ADDYSG

FFYNNU YN Y DYFODOL

CYMORTH AR ÔL GOFAL

Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru.

YR ADDEWIDION



Rydym yn addo gwrando bob amser.



Rydym yn addo eich trin â pharch.



Rydym yn addo eich cynnwys ym mhob penderfyniad a wneir amdanoch chi.



Rydym yn addo y byddwn yn eich hysbysu am ein hymwneud â chi.



Rydym yn addo y byddwn yn defnyddio iaith syml pan fyddwn yn cyfathrebu â chi.



Rydym yn addo y byddwn yn dangos tosturi pan fyddwn yn ystyried eich anghenion.



Rydym yn addo y byddwn yn gweithio gyda chi i'ch helpu i gyflawni eich nodau.



Rydym yn addo y byddwn yn eich cyngori ar sut i wneud cwyn os ydych chi'n teimlo nad ydym yn cadw at y siarter hon.



Rydym yn addo y byddwn yn eich helpu, ar unrhyw adeg, i gael mynediad at eiriolaeth annibynnol i sicrhau bod eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau'n cael eu clywed.

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL BLAENAU GWENT

GYDA’N GILYDD

CYDRADDOLDEB

CARTREF SEFYDLOG

IECHYD DA

UCHELGAIS

ANOGAETH

CYMORTH

GYDOL OES

DILEU
STIGMA



FFYNNU

Y GOEDEN ADDEWID


Er mwyn ein galluogi i ymgynghori’n effeithiol â’r plant iau sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ysgrifennodd un o’n swyddogion ym Mlaenau Gwent stori ‘Y Goeden Addewid’, a ddefnyddiwyd gennym i ymgysylltu â’r plant iau a’u dychymyg. Mae’r stori’n ymwneud â choeden dderwen fawr gref sy’n byw mewn coetir hardd ym Mlaenau Gwent. Roedd y goeden yn arbennig ac yn hudolus iawn oherwydd bod y dail yn tyfu o’r addewidion a wnaed gan warcheidwaid y goedwig i’r anifeiliaid ifanc sy’n byw yno. Roedd y gwarcheidwaid eisiau sicrhau bod pob anifail ifanc sy’n byw yn y coed yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus ac y gofelir amdanynt, felly penderfynon nhw wneud naw addewid pwysig y byddai angen i bob anifail sy’n byw yn y coed eu cadw i sicrhau bod gan yr holl anifeiliaid iau fywyd diogel a hapus.

Roedd stori’r Goeden Addewid mor boblogaidd gyda’r plant ac roedden nhw’n ymddangos yn uniaethu â hi mor dda nes i ni benderfynu ei defnyddio fel ein logo ar gyfer Bwrdd Rhianta Corfforaethol Blaenau Gwent yn y dyfodol fel atgof i ni i gyd gadw ein haddewidion. Bydd y stori hefyd yn cael ei defnyddio fel fideo animeiddiedig i gyd-fynd â’r strategaeth hon a’r cynllun gweithredu.


Dyma oedd y sefyllfa o ran plant sy'n derbyn gofal ym Mlaenau Gwent ar 31 Mawrth.




RHESWM DROS OFAL PLENTYN



2024/2025



POBL SY'N GADAEI GOFAL



Drwy gydol 2024 a dechrau 2025, ymgynghoron ni â'n plant a'n pobl ifanc a dywedon nhw wrthym ni beth oedd yn bwysig iddyn nhw.

Yr hyn a ddywedodd ein plant wrthym!

"Mae angen gwely cynnes a chlyd arnaf"

"Mae gwyliau a theithiau dydd yn bwysig i ni"

"Hoffwn i fynd i'r gampfa ond alla i ddim fforddio hynny"

"Mae angen mwy o gefnogaeth arnom pan fyddwn yn gadael gofal – rwy'n poeni am beidio â chael y Tîm 14 +"

"Fi yw'r ceffyl cryf yn fy nheulu oherwydd rwy'n gofalu am fy mrodyr a'm chwiorydd"

"Mae angen bywyd cartref diogel a sicr arnom gyda phobl sy'n ein caru ni"

"Mae angen yr un cyfleoedd arnom ni o ran hamdden, cymorth a hobiau ag sydd gan eraill"

"Byddwn i wrth fy modd yn mynd i ŵyl gerddoriaeth fel mae fy ffrindiau'n ei wneud"

"Mae angen cysylltiadau trafnidiaeth da arnom ni i weld ein ffrindiau a'n teulu"

"Gobeithio y gallaf fyw yn agos at fy nheulu a'm ffrindiau pan fyddaf yn byw yn fy nghartref fy hun"



Cadw ein haddewidion

GWNEUD I HYN DDIGWYDD

Egwyddor 1 - **CYDRADDOLDEB**

Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gael yr un cyfleoedd bywyd â phob person ifanc arall yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod ein plant a'n pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael tegwch i sicrhau eu bod yn derbyn yr un cyfleoedd, parch a chymorth ag unrhyw blentyn arall, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, gan ganiatáu iddynt ddatblygu ymdeimlad iach o hunan-werth a chyrhaedd eu potensial llawn.

Rhaid cynllunio gwasanaethau i sicrhau nad oes unrhyw blentyn na pherson ifanc dan anfantais oherwydd eu cefndir, pwy ydynt, eu hanghenion neu o ble maent yn dod, a rhaid cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ym mhob gwasanaeth.

EIN HADDEWIDION:

- Rydym yn addo y byddwn yn trin pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal â pharch.

- Rydym yn addo y byddwn yn cymryd yr amser i wrando ar bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal er mwyn sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed.
- Rydym yn addo y byddwn yn cynnwys pob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac y byddant yn cymryd rhan weithredol yn y broses o lunio'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn.
- Rydym yn addo y byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gael yr un cyfleoedd bywyd â phob person ifanc arall yng Nghymru.





Egwyddor 2 - DILEU STIGMA

Byddwn yn cydnabod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofalam bwy ydyn nhw, nid yn unig yn ôl eu profiad o fod mewn gofal.

Mae stigma yn dibrisio, yn gwahaniaethu, ac yn mwyhau anghydraddoldebau cymdeithasol. I blant sy'n derbyn gofal, gall stigma effeithio'n negyddol ar ganfyddiadau eraill ohonynt, yn ogystal â chanfyddiadau'r plant ohonyn nhw eu hunain.

Mae'n bwysig ein bod yn dileu stigma ac yn mynd i'r afael ag ef ar sawl lefel er mwyn cefnogi datblygiad ymdeimlad iach a chadarnhaol o hunaniaeth a hunan-barch i blant mewn gofal.

EIN HADDEWIDION:

- Rydym yn addo y byddwn yn cydnabod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofalam yr unigolion pwysig ydyn nhw, nid yn unig yn ôl eu profiad o fod mewn gofal.
- Rydym yn addo y byddwn yn gweithio tuag at newid iaith gofal cymdeithasol a pheidio â defnyddio labeli nac acronymau sy'n gwneud i blant deimlo'n wahanol.
- Rydym yn addo eu cydnabod pan fyddant yn gwneud yn dda, eu canmol, a gweithio gyda nhw i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.



Egwyddor 3

GYDA'N GILYDD

Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofali sicrhau bod eu barn, eu teimladau a'u syniadau yn rhan annatod o ddylanwadu ar y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r ffordd maen nhw'n derbyn y gwasanaethau hynny, ac o lywio hyn oll.

Mae cydweithio â'n plant a'n pobl ifanc yn hanfodol gan ei fod yn caniatáu dealltwriaeth gyfannol o'u hanghenion, yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus, ac yn y pen draw yn meithrin y cymorthgorau posibl trwy gydlyn ymdrechion ar draws gwahanol weithwyr proffesiynol ac asiantaethau sy'n ymwneud â'u bywydau, gan arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer eu lles a'u datblygiad. Mae'n rhoi'r plentyn wrth wraidd eu cynllun ac yn eu grymuso i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd.

EIN HADDEWIDION:

- Rydym yn addo y byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'n plant i sicrhau bod eu barn yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn, a'u llywio, ac i lunio gwasanaethau yn y dyfodol.
- Rydym yn addo y byddwn yn meithrin partneriaethau cryf gyda phartneriaid, gan gynnwys ym meysydd tai, iechyd, addysg, cyflogaeth, addysg bellach, prifysgolion a'r sectorau gwirfoddol, er mwyn darparu cymorthdi-dor i'n plant a'n pobl ifanc.

Egwyddor 4 CYMORTH

Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn deall eu hanghenion a bod ganddynt fynediad at wybodaeth a hyfforddiant.

Mae llawer o blant mewn gofal wedi profi cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o drawma. Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn cael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i fod yn iach ac yn ddiogel, yn cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion, ac yn symud ymlaen yn llwyddiannus i fod yn oedolion.

Dylem sicrhau bod y rhai sy'n gweithio ym mhob un o'n sefydliadau gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn deall eu hanghenion a/neu fod ganddynt fynediad at wybodaeth a hyfforddiant.

EIN HADDEWIDION:

- Rydym yn addo cefnogi ein plant ar eu teithiau personol a byddwn yn darparu cefnogaeth dosturiol a chyson i'w helpu i gyflawni eu nodau.
- Rydym yn addo cefnogi ein plant i ddod y fersiwn orau ohonynt eu hunain.
- Rydym yn addo y byddwn yn rhoi'r hyfforddiant, offer a gwybodaeth ddiweddaraf i'n staff fel y gallant eu defnyddio i gefnogi ein plant ar eu taith bersonol.





Egwyddor 5 - UCHELGAIS

Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cyrraedd eu potensial ac yn gallu mwynhau profiad eang o weithgareddau hamdden, diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol.

Mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofalyd rhannu'r un gobeithion a breuddwydion ag unrhyw un arall: maen nhw eisiau cael eu cefnogi i gyflawni eu dyheadau yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn arall.

Gall uchelgais ddysgu plant i wella ar ôl anawsterau a methiannau. Yn aml, mae'n meithrin gwydnwch drwy feithrin y gred bod anawsterau'n rhai dros dro ac yn darparu cyfleoedd twf.

Fel arfer, mae meithrin uchelgais yn rhoi'r penderfyniad i blant ddysgu o fethiannau ac addasu a dyfalbarhau.

EIN HADDEWIDION:

- Rydym yn addo creu amgylcheddau meithringar a chadarnhaol sy'n cefnogi uchelgeisiau plant.
- Rydym yn addo annog a chefnogi ein plant a'n pobl ifanc i anelu'n uchel a chyflawni eu breuddwydion.
- Rydym yn addo darparu anogaeth, canmol eu hymdrechion a dathlu eu cyflawniadau fel eu bod yn dod yn uchelgeisiol ac yn benderfynol.

Egwyddor 6 - **ANOGAETH**

Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewngofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u caru ac ygofelir amdanynt.

Mae cyflawni angen plentyn i gael ei garu a'i feithrin yn hanfodol i gyflawni lles corfforol, meddyliol ac emosiynol hirdymor.

Mae angen i blant fod yn ddiogel, cael eu meithrin a gwireddu eu potensial. Rydym yn deall bod perthnasoedd meithringar yn hanfodol ar gyfer twf a datblygiad plant.

EIN HADDEWIDION:

- Rydym yn addo y byddwn yn dangos tosturi wrth ystyried anghenion pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewngofal.

- Rydym yn addo y byddwn yn datblygu amgylcheddau tawel a meithringar lle maent yn teimlo'n ddiogel, yn bwysig, a'u bod yn cael eu meithrin a'u caru.
- Rydym yn addo y byddwn yn cefnogi lles emosiynol a meddyliol ein plant ac yn darparu mynediad at wasanaethau a chymorth iechyd meddwl i hyrwyddo lles emosiynol plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.





Egwyddor 7

IECHYD DA

Byddwn yn darparu cymorth i gael mynediad at y gofal iechyd a chyngor cywir sydd eu hangen i gefnogi'r iechyd corfforol, meddyliol a lles cyffredinol gorau i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae llawer o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofalwedi profi cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o drawma ac yn aml maent yn profi iechyd a lles gwael. Gwyddom fod plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiadau niweidiol o'r fath yn ystod plentyndod yn fwy tebygol o gael trafferth gyda'u hemosiynau, ac mae hyn, ynghyd â symud lleoliad yn aml, tarfu ar rwydweithiau ysgol a chymorth, a diffyg cariad a gofal cyson, i gyd yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd gwaeth o'ucymharu â'u cyfoedion. Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofalyn cael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i fod yn iach ac yn ddiogel, cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion, a symud yn llwyddiannus i fod yn oedolion.

EIN HADDEWIDION:

- dym yn addo y bydd ein plant a'n pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofalyn cael mynediad amserol at asesiadau a gwasanaethau iechyd cynhwysfawr, gan gynnwys gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau golwg.
- Rydym yn addo y byddwn yn gweithio i leihau unrhyw rwystrau sydd gan ein plant wrth geisio byw bywyd diogel, iach a hapus.
- Rydym yn addo deall eu hanghenion iechyd a lles unigol a gweithredu ar yr wybodaeth hon i hyrwyddo eu hiechyd da.
- Rydym yn addo y byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy annog gweithgarwch corfforol, bwyta'n iach, a mynediad at weithgareddau hamdden.
- Rydym yn addo y byddwn yn sicrhau y gall ein plant gael mynediad at gymorth a gwasanaethau iechyd meddwl pan fydd eu hangen arnynt, fel y gallant feithrin gwydnwch emosiynol trwy gwnsela a gwasanaethau therapiwtig.

Egwyddor 8

CARTREF SEFYDLOG

Byddwn yn chwilio am ac yn darparu lleoedd diogel a sefydlog i fyw sy'n addas i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae angen cartref diogel a sefydlog ar bawb, yn enwedig plant a phobl ifanc. Mae rhywle lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol yn hanfodol ar gyfer datblygiad iach a dyfodol llwyddiannus. Mae plant sy'n teimlo'n gysylltiedig â'u gofalcwyr a'u cartref yn arddangos llai o ymddygiadau 'risg uchel' yn ddiweddarach yn ystod plentyndod.

Mae pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn haeddu cartref diogel a chariadus. Dylent dderbyn gofal o'r ansawdd uchaf, mewn cartref sy'n cyd-fynd yn dda â'u hanghenion unigol, fel y gallant ffynnu.

EIN HADDEWIDION:

- Rydym yn addo y byddwn yn dewis ac yn paru cartref ag anghenion a dymuniadau ein plant a'n pobl ifanc.
- Rydym yn addo cynnwys a gwranddo ar ein plant a'n pobl ifanc wrth chwilio am gartref.
- Rydym yn addo darparu amgylchedd cartref diogel a sefydlog i blant a phobl ifanc syddâ phrofiad o fod mewn gofal.
- Rydym yn addo eu helpu i baratoi ar gyfer annibyniaeth pan fyddant yn barod i adael gofal.
- Rydym yn addo cryfhau systemau gyda chydweithwyr tai i sicrhau bod eu hanghenion yn cael blaenoriaeth a'u bod yn byw lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn rhan o'r gymuned.





Egwyddor 9 - ADDYSG DDA

Byddwn yn darparu cyfleoedd a chefnogaeth i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewngofal i'w helpu i ddod yr unigolion y maen nhw eisiau bod.

Mae addysg dda yn bwysig i'n plant a'n pobl ifanc oherwydd nid yn unig y mae'n rhoi ymdeimlad o sefydlogrwydd a pherthnasoedd dibynadwy iddynt, ond mae hefyd yn datgloi mynediad at ystod ehangach o ddewisiadau a chyfleoedd bywyd, sy'n arbennig o bwysig i'n plant, a all golli'r cyfleoedd a'r gefnogaeth y mae eu cyfoedion yn eu mwynhau.

Yn aml, yr ysgol a ffrindiau yw'r unig ran gyson o fywydau ein plant. Yn gyffredinol, mae gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal gyrraeddad is yn yr ysgol na phlant eraill, felly mae'n hanfodol rhoi addysg dda iddynt.

EIN HADDEWIDION:

- Rydym yn addo y byddwn yn gweithio gyda darparwyr gofal plant o ansawdd uchel, meithrinfeydd, ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant eraill i gefnogi cyrraeddad addysgol plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Rydym yn addo annog pob lleoliad addysg i gefnogi ein plant mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, gan gynnwys pan fydd ganddyn nhw anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau.
- Rydym yn addo y byddwn yn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i gyflawni eu hamcanion a'u dyheadau addysgol.
- Rydym yn addo y byddwn yn cefnogi ein pobl ifanc sy'n gadael gofal i gael mynediad at hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd cyflogaeth sy'n addas i'w galluoedd a'u breuddwydion. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor gyrfa, mentora a chymorth ariannol.
- Rydym yn addo cefnogi ein pobl ifanc y tu hwnt i 16 oed fel eu bod yn aros mewn cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg i sicrhau cyfleoedd bywyd gwell.

Egwyddor 10 - FFYNNU

Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewngofal yn barod ar gyfer y dyfodol ac yn gallu gwneud dewisiadau cadarnhaol ar gyfer byw'n annibynnol a bod yn oedolyn.

Mae'r daith o blentyndod i fod yn oedolyn yn gyfnod pwysig i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewngofal. Mae'n hanfodol bod plant yn derbyn y cymorth ac arweiniad cywir cyn gynted â phosibl i'w paratoi ar gyfer dod yn oedolyn, ac i'w helpu i gyrraedd eu potensial llawn a byw bywyd boddhaus.

HADDEWIDION:

- Rydym yn addo y byddwn yn darparu cymorth a hyfforddiant i helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol; mae hyn yn cynnwys cyllidebu, coganio a rheoli cartref.
- Rydym yn addo y byddwn yn darparu cefnogaeth barhaus i bobl ifanc sy'n gadael gofal wrth iddynt bontio i fod yn oedolion. Mae hyn yn cynnwys mynediad at dai, cymorth ariannol a chefnogaeth emosiynol.
- Rydym yn addo cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ffynnu drwy gydol eu bywydau.





Egwyddor 11 - **GYDOL OES**

Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i gael y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ar gael iddynt ar ôl iddynt adael gofal.

Mae angen cefnogaeth gydol oes ar blant mewn gofal oherwydd eu bod yn aml yn wynebu heriau sylweddol oherwydd eu profiadau trawmatig. Mae angen cefnogaeth arnynt i wella o drawma, meithrin sefydlogrwydd a diogelwch, a datblygu eu bywydau fel oedolion.

Rydym yn deall pwysigrwydd cael rhwydwaith cymorth gydol oes ac yn ymdrechu i ddatblygu hynny ar gyfer ein plant.

HADDEWIDION:

- Rydym yn addo y byddwn yn cydweithio â phob adran ac asiantaeth i ddarparu mynediad at a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ar ôl iddynt adael gofal.
- Rydym yn addo bod yma iddyn nhw bob amser.



4. Mesurau llwyddiant

Mae'r strategaeth hon wedi'i hategu gan gynllun gweithredu pum mlynedd cynhwysfawr sydd wedi'i ddatblygu trwy ein gwaith ymgynghori gyda'n plant, pobl ifanc, staff, aelodau a sefydliadau partner. Er mwyn sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus, bydd yn cael ei fonitro bob chwarter a bydd adolygiadau blynyddol llawn yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan o dan Hwb Gwybodaeth Rhianta Corfforaethol Blaenau Gwent, sydd newydd ei sefydlu.

5. Casgliad

Rydym ni yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi ymrwmo i gyflawni ein rôl fel rhieni corfforaethol a sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ffynnu.

Drwy lynu wrth egwyddorion Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru – **'Addewid Cymru'** – a gweithredu ein strategaeth gynhwysfawr, ein nod yw creu dyfodol disglair i'n plant a'n pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.